

❖ HANESION Y NADOLIG

Mathew 2:1–18

Mae hanesion y Nadolig yn efengyl Mathew yn atgofus. Mae breuddwydion Joseff ‘tad’ Iesu yn dwyn i gof freuddwydiwr arall, Joseff mab Jacob. Mae ffoi ‘tad’ Iesu a’i deulu i’r Aifft oddi wrth Herod yn dwyn i gof guddio’r baban Moses yn yr Aifft rhag Pharo, teyrn arall. Mae Iesu’n ail-fyw hanes ei bobl.

Ond mae’r hanesion yn edrych ymlaen hefyd. Mae bwriad Herod i ladd y baban Iesu yn argoeli dioddefaint Iesu y gŵr, a stori’r Doethion yn argoeli perthynas y Cenhedloedd â’r Efengyl. Yn ôl Raymond Brown yn *The Birth of the Messiah*, mae hanesion y Geni yn rhagflas o’r holl efengyl, a geilw hwynt yn *mini-gospels*.

Rydym ninnau’n byw, fel awduron yr efengylau, yr ochr yma i’r Geni. Oherwydd y gwyddom pa fath berson y tyfodd y baban Iesu i fod, a beth a ddigwyddodd iddo, y cofiwn y Geni. Tymor i baratoi ar gyfer dathlu’r efengyl gyfan sydd ymhlyg yn y Geni yw’r Adfent. Sut mae gwneud hynny?

Efallai y gallwn ddysgu rhywbeth wrth sylwi ar y person a oedd, yn ôl efengyl Mathew, lleiaf parod i ddathlu’r newydd am y Geni – Herod, brenin yr Iddewon. Gelwid ef Herod Fawr, i’w wahaniaethu oddi wrth ei feibion, ac i ddisgrifio’i amlygrwydd yn ei ddydd. Roedd yn ffrind i Augustus Cesar, a bu mewn cynghrair â Marc Anthony mewn rhyfel. Ymwelodd â Cleopatra yn yr Aifft, a daeth hithau i Jwdea, a syrthio mewn cariad ag ef yn ôl yr hanesydd Josephus.

Ond roedd yn deyrn caled. Gyrrai ysbïwyr i bob man, poenydid ei bobl a’u lladd ar gam. Daeth drwgdybio ac erchylltra’n rhan o’i fywyd teuluol. Llofruddiwyd ei wraig Marianne, a chrogwyd ei feibion, Alexander ac Aristobulus.

Gellid cynnig esboniadau am hyn oll. Trigai mewn byd trahaus, ac roedd ystryw yn rhan anochel o fywyd palas. Roedd Rhufain, a newidiai deyrn byth a hefyd, yn wasgfa arno. Ac yntau heb fod nac yn Iddew nac wedi ei eni i’w orsedd, roedd ganddo achos i fod yn ofnus. Ond wedi dweud hynny, dyn oedd a laddai pan nad oedd galw an hynny. Ei wendid oedd ei fod yn ansicr. Ynysodd hynny ef, ei wneud yn ddiellon a byrbwyll, ac uwchlaw popeth, yn greulon. Ei enw am hynny a’i gwnaeth yn bosibl i Mathew ei ddefnyddio’n ymgorfforiad o anallu i brofi’r rhyfeddod a’r llawenydd o eni Iesu.

Efallai, y Nadolig hwn, y gall Herod wneud â ni y gymwynas y bwriadodd Mathew iddo ei gwneud o bosibl, sef ein hatgoffa y gall fod pris i’w dalu am osgoi delio â gwendidau personol, yn enwedig rhai sy’n niweidio pobl, ac mai’r pris yw methu croesawu a dathlu’r hyn sy’n ganmoladwy, sy’n lân a sanctaidd.

Bydd unrhyw ddiffyg ynom ni yn llawer llai ei ganlyniadau gweledig na diffyg Herod, ond rhaid peidio â gadael i hynny ein twyllo. Yn ein bydoedd ni, gallwn ninnau niweidio eraill drwy fod yn ddi-weld, yn gyfyng, yn angharedig, yn arwahanol. Dylai bywyd eglwys ein gwneud yn effro i weld hynny ynom ein hunain, ac i’n holi’n hunain ynghylch beth sydd wrth wraidd hynny yn ein hachos ni.

Ond mae bod yn berson da yn fater mwy na gwybod am y creigiau sydd o dan y don. Mae’n golygu gwybod hefyd ble mae’r dyfroedd dyfnion. Golyga barodrwydd i wybod ac wynebu fel mae eraill yn ein gweld ni. Golyga ddewrder i ddweud y gwir a ymddiriedwyd i ni, a gras i’w ddweud mor garedig ac adeiladol ag y mae modd. Golyga ryddid i roi rheolau o’r neilltu mewn ambell amgylchiad, a dilyn yr ysbryd. Golyga’r aeddfedrwydd i gael ein cyffroi i’r byw, gan y cread, gan gelfyddyd, gan y cyflwr dynol ar ei orau a’i waethaf, a chan olion bysedd Duw mewn bywyd bob dydd, oherwydd dim ond pobl sy’n gallu cael eu cyffroi felly sy’n gwybod beth sy’n cyfrif mewn gwirionedd. Golyga ddigon o ddychymyg i weld fel mae pobl eraill yn gweld pethau. Golyga’r cryfder a’r ystwythder i barchu pobl eraill eu barn a’u hewyllys, pwy bynnag y bônt. Golyga ffyddlondeb i anrhydeddu ymrwymadau pan fydd hynny’n costio. Golyga fod yn ddigon diymhongar i adnabod rhai sy’n well na ni, ac yn ddigon doeth i dreulio amser yn eu cwmni.

Mae’r Adfent yn dymor i’n hatgoffa’n hunain mai ein galwad ni yw bod, ys dywed Waldo, yn bobl sy’n ‘un â’r rhuddin yng ngwreiddyn Bod.’ Neu yn iaith y Nadolig, yn bersonau y bydd ein calonnau’n gallu bod yn breseb i’r Baban a dyfodd i fod yn Oen Di-fai.